Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Yr Hendre**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 2LY**

**Dyddiad yr ymweliad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol yr Hendre wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Chwefror 2013.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Cynllunio'n fwriadus i sicrhau dilyniant a chynnydd mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion drwy'r ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gofynion Cwricwlwm 2008.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi addasu ei chynlluniau gwaith yn llwyddiannus. Mae sylw dyledus i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn y cynlluniau gwaith ysgol gyfan. O ganlyniad, mae'r cynlluniau yn sicrhau dilyniant yn y medrau ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cydgynllunio'n ofalus ac mae sylw manwl yn cael ei roi i ddatblygu'r medrau yn y cynlluniau tymor byr. Mae'r cynllunio'n fanwl ac yn ymateb i anghenion disgyblion o bob gallu. Mae'r tîm rheoli yn monitro'r cynlluniau'n rheolaidd.

Caiff medrau TGCh eu cynllunio'n fwriadus ac mae disgyblion yn eu defnyddio'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn dadansoddi graffiau wrth gymharu glawiad yn India a Chymru mewn gwaith thema.

Mae cynlluniau gwaith yn nodi cyfleoedd penodol lle mae'r disgyblion yn arwain y dysgu. Mae hyn yn rhoi cyfle priodol iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod prosesau asesu'n olrhain cynnydd disgyblion drwy'r ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol ers yr arolygiad craidd i sicrhau gwell cysondeb yn y defnydd o asesiadau ar draws yr ysgol.

Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o asesiadau athrawon a chanlyniadau profion safonol i fesur cynnydd y disgyblion. Mae gan yr ysgol system olrhain cynnydd effeithiol, sy'n cael ei defnyddio'n briodol er mwyn nodi'r disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ac i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae gwaith safoni a chymedroli asesiadau athrawon gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd wedi arwain at broffiliau asesu pwrpasol. Mae hyn, ynghyd â'r

system olrhain cynnydd gynhwysfawr, wedi cryfhau dealltwriaeth yr athrawon o lefelau a deilliannau'r cwricwlwm. Golyga hyn fod gan y staff well ymwybyddiaeth o'r safonau a gyflawnir gan bob disgybl.

Mae'r ysgol wedi dechrau cydsafoni gwaith disgyblion yn fewnol i sicrhau asesiadau dilys. Serch hynny, nid yw hyn wedi datblygu'n llawn er mwyn sicrhau lefelu cywir ym mhob achos.

**Argymhelliad 3: Datblygu proses gyflawn systematig ar gyfer hunan arfarnu yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth feintiol gadarn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau breision i sefydlu prosesau priodol ar gyfer hunan arfarnu. Mae ganddi amserlenni manwl i lywio'r gweithgaredau monitro, sy'n nodi'n benodol ffocws y monitro, gyda hyn yn cynnwys pynciau'r cwricwlwm ynghyd â'r agweddau ysgol gyfan. Mae'r uwch-dîm rheoli yn cadw golwg fanwl ar weithrediad y trefniadau monitro yn unol â'r amseroedd sydd wedi eu dynodi. Nodwedd gref o'r trefniadau yw'r cyfleoedd cynyddol i ystod o staff gyfranogi a datblygu eu medrau arsylwi a chofnodi, yn enwedig athrawon â chyfrifoldebau arwain rhifedd a llythrennedd.

Mae'r systemau hunan arfarnu yn gwneud defnydd o ystod priodol o ffynonellau tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau, ynghyd â dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad sy'n rhoi sylw dyladwy i gymharu canlyniadau â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer canfod barn rhieni ac aelodau'r corff llywodraethol. Mae dansoddiadau o'r wybodaeth yn deillio o holiaduron disgyblion wedi arwain at gamau dilynol penodol, yn cynnwys gwariant sylweddol i hyrwyddo arferion darllen da ymysg y disgyblion.

Mae'r cofnodion yn deillio o'r arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau yn fanwl ac yn arfarnol. Maent yn rhoi sylw cynyddol i agweddau penodol ar gyfer gwella ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer nodi blaenoriaethau gwella. Mae lleiafrif o'r cofnodion yn rhoi ffocws clir ar safonau a chynnydd disgyblion fel modd o fesur pa mor effeithiol yw'r addysgu. Hyd yma, nid yw'r trefniadau ail-ymweld i adolygu cynnydd yn dilyn arsylwi blaenorol yn digwydd yn ddigon cyson.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n gwneud defnydd helaeth o'r wybodaeth yn deillio o'r gweithgarwch monitro a dadansoddi data. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhestr ddefnyddiol o'r prif bwyntiau i roi sylw iddynt, ond nid ydynt yn cael eu cynnwys yn llawn yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae angen i'r ysgol yn awr sicrhau bod cofnodion monitro yn rhoi sylw llawn i safonau a chynnydd disgyblion, ac yn nodi'n glir yr agweddau i'w gwella.

**Argymhelliad 4: Sicrhau cynllun gwella ysgol sy'n gadarn seiliedig ar ddeilliannau'r broses hunan arfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r cynllun gweithredu a luniodd yr ysgol yn dilyn yr arolygiad craidd yn Chwefror 2013 yn ddogfen fanwl sydd yn cynnwys strategaethau clir i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad. Mae'n nodi cyfrifoldebau gweithredu yn glir ac mae dyddiadau penodol wedi eu cynnwys i hwyluso mesur cynnydd yn gweithredu'r bwriadau.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys bwriadau addas mewn perthynas â'r ddwy flaenoriaeth yn ymwneud â chodi safonau darllen a sillafu Saesneg, a medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r strategaethau ar gyfer gweithredu'n bwriadau yn fanwl ac yn cynnwys defnydd priodol o dargedau meintiol heriol i fesur cynnydd.

Er bod y cynllun datblygu yn cynnwys crynodeb bras o agweddau eraill i dderbyn sylw, rhy ychydig yw'r defnydd hyd yma o wybodaeth yn deillio o systemau hunan arfarnu'r ysgol i adnabod blaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae agweddau pwysig eraill sydd heb eu cynnwys yn y cynllun, yn enwedig mewn perthynas â safonau a phresenoldeb, ynghyd â materion yn deillio o adroddiadau craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi.

**Argymhelliad 5: Sicrhau cyfrifoldebau strategol ysgol gyfan ar gyfer arweinwyr yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau ei strwythur arweinyddiaeth a bellach mae cyfrifoldebau wedi eu rhannu'n briodol rhwng arweinwyr yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli a'r tîm rheoli ehangach yn gweithredu'n effeithiol ac mae eu cyfarfodydd yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'r tîm rheoli a'r llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl-arolygiad yn rheolaidd.

Mae gan holl staff yr ysgol ddisgrifiadau swyddi sy'n nodi'n glir eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae cydlynwyr pwnc wedi eu sefydlu, ac maent yn cymryd rôl fwy gweithredol wrth fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu. Caiff canfyddiadau monitro eu rhannu'n effeithiol gyda gweddill yr athrawon a llywodraethwyr. Mae hyn yn hybu gwell dealltwriaeth o safonau ymysg arweinwyr yr ysgol. Bellach, mae yma ethos o gydweithio llwyddiannus ymysg yr holl staff.

Mae'r llywodraethwyr, o dan arweiniad y pennaeth, yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel arweinwyr strategol. Mae ganddynt wybodaeth gynyddol am berfformiad yr ysgol ac maent yn dechrau cyfrannu'n fwy penodol at osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol i herio'r ysgol am ei pherfformiad wedi ei datblygu yn llawn.

**Argymhelliad 6: Gweithredu gofynion statudol ar gyfer Rheoli Perfformiad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno systemau rheoli perfformiad staff addysgu sydd yn bodloni gofynion statudol. Mae amserlen benodol yn ei lle a chyfrifoldebau adolygu wedi eu rhannu'n briodol rhwng aelodau'r uwch-dîm rheoli. Mae amcanion datblygu ar gyfer

athrawon yn perthnasu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol, gan roi ystyriaeth briodol i faterion penodol eraill athrawon unigol ac arwain at hyfforddiant dilynol yn ôl yr angen.  Mae trefniadau priodol yn weithredol i adolygu cynnydd yn erbyn yr amcanion, ac i gloriannu ansawdd ac effaith hyfforddiant.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.